# Dadansoddiad o Ymarferion Cofrestru Disgyblion awdurdod lleol ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth PRU ac EOTAS

© Hawlfraint y Goron 2018
WG36081 ISBN digidol 978 1 78964 279 7

Mae'r safbwyntiau a roddir yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr a'r ymatebwyr ac nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Tîm Ymchwil:

Dr April May Kitchener

Athro Alex Gray
Qays Stetkevch
Liz Williams

admin@siaradda.org.uk

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Y Gangen Lles Disgyblion/Pupil Wellbeing Branch

Y Gyfarwyddiaeth Addysg/ The Education Directorate

Llywodraeth Cymru/Welsh Government

E-bost: wellbeingshare@wales.gsi.gov.uk

**Cydnabyddiaethau**

Hoffai Siarad Da gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gwblhaodd holiaduron a'r rhai a roddodd o'u hamser i siarad â ni a rhannu eu profiadau.

**CYNNWYS**

**TUDALEN**

1. Cefndir / Trosolwg 4
2. Methodoleg 7
   2.1 Cyfyngiadau Data Posibl 7
   2.2 Cyfnodau Casglu Data 9
      2.2.1 Cyfnod un 9
      2.2.2 Cyfnod dau 11
      2.2.3 Cyfnod tri 11
      2.2.4 Cyfnod pedwar 11
   2.3 Moeseg 11
3. Ymatebion i'r Ymgynghoriad 13
   3.1 A yw Awdurdodau Lleol wedi Mabwysiadu Arferion Cofrestru Safonedig? 13
   3.2 Rhesymeg dros Beidio Mabwysiadu Arfer Cofrestru Safonedig 15
   3.3 Arferion Cofrestru a Gwella Deilliannau Myfyrwyr 15
4. Manteision ac Anfanteision Cofrestriad Deuol 17
5. Manteision ac Anfanteision Cofrestriad Sengl 21
6. Sylwadau Terfynol 23
7. Datrysiadau Ymarferol 24
   7.1 Opsiwn Un 24
   7.2 Opsiwn Dau 24
   7.3 Opsiwn Tri 26
   7.4 Opsiwn Pedwar 28

Tabl 1: Cyfranogwyr Ymchwil 11

Atodiad I 31
Atodiad II 40

## 1.0. TROSOLWG O'R CEFNDIR

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fodloni anghenion addysg holl blant Cymru er mwyn iddynt gyflawni hyd at eu gallu.

Mae Adran 19 Deddf Addysg 1996 yn creu dyletswydd ar bob awdurdod i wneud trefniadau ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) addas i ddysgwyr nad ydynt bellach yn mynychu'r ysgol am ba bynnag reswm, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) salwch a gwaharddiad.

Mae darpariaeth EOTAS yn chwarae rôl hanfodol wrth addysgu dysgwyr bregus a gellir darparu hynny drwy nifer o wahanol opsiynau sy'n cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, sefydliadau addysg bellach, tiwtora o gartref neu addysg yn y gweithle. Yn y ddarpariaeth hon, mae Unedau Cyfeirio (PRUs) yn parhau i fod yn ddewis amgen angenrheidiol i ysgolion prif ffrwd.

Sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen EOTAS mewn ymateb i bryderon parthed gwasanaethau EOTAS yng Nghymru, a fynegwyd mewn adroddiadau a gynhyrchwyd gan Estyn, Comisiynydd Plant Cymru a Phrifysgol Caeredin. Gofynnwyd i'r 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen' EOTAS ystyried yr amrywiol argymhellion yn yr adroddiadau hyn a datblygu datrysiadau ymarferol i'w rhoi ar waith.

Rhannwyd gwaith y Grŵp yn ddwy gangen: edrychodd y gangen gyntaf yn benodol ar PRUs, tra bod yr ail yn edrych ar ddarpariaeth EOTAS ehangach.

Daeth gwaith y Grŵp i ben wrth ddatblygu 'Fframwaith Gweithredu' drafft, yn amlinellu cynigion tymor byr, canolig a hir i ysgogi gwelliant. Roedd cynigion tymor canolig a hirdymor yn cynnwys cyflwyno arweiniad a newidiadau i ddeddfwriaeth. I gefnogi hyn, roedd mwyafrif y cynigion byrdymor yn ymwneud â chasglu tystiolaeth a dadansoddiad o weithdrefnau cyfredol ar waith ledled Cymru.

Mae'r adroddiad dadansoddiad hwn yn cwmpasu un maes a nodwyd yn y 'Grŵp Tasg a Gorffen' sef: dadansoddiad o arferion cofrestru disgyblion ar draws Cymru ar gyfer dysgwyr sy'n cael mynediad i PRUs a darpariaeth EOTAS arall.
Mae deddfwriaeth gyfredol, Adran 434 Deddf Addysg 1996[1] yn cwmpasu cofrestriad disgyblion ac yn sefydlu'r gofyniad i gadw cofrestr o wybodaeth benodol ynghylch pawb sydd yn yr ysgol.

Cyhoeddwyd y canllaw presennol ar gofrestru disgyblion yn 2010 [2], yn ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (NBAR) 2008[3]. Gweithred allweddol o NBAR oedd '*I gynhyrchu Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan*.'

Datganodd Rheoliad 9 y Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 y gellir cofrestru disgybl mewn dwy ysgol yn defnyddio'r cod D newydd. Byddai cofrestriad sengl yn parhau gyda'r cod C. Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y rhan fwyaf o ysgolion yn cael eu cofnodi fel 'Cyfredol' ar gyfer statws cofrestru.

Defnyddir cofrestru deuol pan fydd disgybl yn mynychu mwy nag un math o ysgol. Mae'n golygu fod disgybl wedi cofrestru mewn ysgol (nad yw'n uned gyfeirio disgyblion) ac uned gyfeirio disgyblion; neu mewn ysgol prif ffrwd ac ysgol arbennig.

Mae nodiadau Cwblhau Technegol ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion (2017)[4] yn darparu canllaw ar gyfer rheoli cofrestriadau deuol, sef:

- Ble mae gan ddisgyblion gofrestriad deuol rhwng ysgol prif ffrwd ac uned gyfeirio disgyblion neu ysgol arbennig, dylai'r ddau sefydliad gynnal cofnod disgybl ar gyfer y disgybl. Dylai un sefydliad gofnodi tatws cofrestriad y disgybl fel Prif a'r llall yn Atodol.
- Wrth benderfynu pa sefydliad yw'r 'Prif' neu 'Atodol' dylai ysgol ystyried ym mha leoliad mae'r disgybl yn debygol o dreulio'r rhan fwyaf o'i amser yn ystod y flwyddyn academaidd. Er enghraifft:

[1] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/contents
[2] Llywodraeth Cymru, Canllawiau ar godau presenoldeb yn yr ysgol, Mehefin 2010
[3] Adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb, cyhoeddwyd 2008
[4] http://gov.wales/docs/dcells/publications/170331-attendance-collection-2017-en.pdf

- os yw disgybl yn treulio un diwrnod yr wythnos mewn ysgol arbennig neu PRU, yna dylai hyn fod ei sefydliad Atodol
- os yw disgybl yn mynychu PRU yn llawn amser am gyfnod cyfyngedig o ychydig wythnosau o bosibl, ac yna'n dychwelyd i'r ysgol brif ffrwd, yna dylai'r PRU fod y sefydliad Atodol
- Os bwriedir i ddisgybl dreulio dros hanner y flwyddyn academaidd yn yr ysgol arbennig neu PRU, yna dylai'r cofnodion ddangos yr ysgol arbennig neu'r PRU fel y Prif sefydliad.

Ceir canllaw pellach ar gyfer y data cofnodi ac adrodd. Ble mae gan ddisgybl gyda chofrestriad deuol statws cofrestru Prif Sefydliad yn yr ysgol a gynhelir yna:

- Bydd manylion ar gyfer y disgyblion hyn yn cael eu cynnwys yn y datganiadau CYBLD o'r Prif sefydliadau a'r Atodol.
- Bydd data CYBLD o'r ddau sefydliad yn cael eu cysylltu ar dderbyn gan Lywodraeth Cymru.
- Bydd disgyblion ar gofrestr gyda Phrif statws cofrestriad ac yn CC blwyddyn 11 yn ystod CYBLD Ionawr yn cael eu cynnwys yn y dynodwr a'u canlyniadau yn cael ei gynnwys yng nghyfrifiad yr ystadegau ar y Crynodeb o Berfformiad Ysgol Uwchradd.

## 2.0. METHODOLEG

Mae’r Adran hon yn amlinellu’r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data a alluogodd Siarad Da i gynnal y dadansoddiad hwn o arferion cofrestru disgyblion gan awdurdod lleol ar

gyfer dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth PRU ac EOTAS.

## 2.1. CYFYNGIADAU DATA POSIBL

Oherwydd nifer y cyfranogwr penodol, a pharamedrau daearyddol yr astudiaeth hon, rhaid dwyn maint a sgôp y dadansoddiad i ystyriaeth wrth adolygu a dadansoddi'r data. Gall sampl rhy fach atal y canlyniadau rhag cael eu casglu, tra gallai sampl rhy fawr chwyddo'r gwahaniaethau a amlygir, gan bwysleisio gwahaniaethau ystadegol nad ydynt yn glinigol berthnasol.

Ein nod felly oedd dull a oedd yn ymchwilio yn y modd mwyaf effeithlon: Mae'r data a gynhyrchir yn ddibynadwy; mae'r adnodd a fuddsoddir mor gyfyng â phosibl, ond yn cydymffurfio ag egwyddorion moesol.

Tra bod astudiaethau mwy yn cynhyrchu canlyniadau mwy cywir, gellir cynnal astudiaethau llai, fel ein hastudiaeth ni, o fewn cyfnod amser byrrach. Gyda llai o bynciau gall yr ymchwilwyr ganfasio ac ymgysylltu a threulio mwy o amser gyda chyfranogwyr unigol.

Un o anfanteision astudiaethau bach yw dehongli'r canlyniadau. Gall astudiaethau bach gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol-ffals, neu oramcangyfrif maint y cysylltiad. Mae'n bwysig felly cadw hyn mewn cof wrth adolygu'r canlyniadau. Oherwydd hyn, mae'n bwysig egluro y gall unrhyw ganlyniadau fod angen astudiaeth fwy i gadarnhau'r canlyniadau cyn mynd ati i weithredu ar unwaith.

Mae cyfyngiadau posibl i'r fethodoleg yr ydym wedi eu dwyn i ystyriaeth yn ystod ein hymchwil yn cynnwys:

- Maint y sampl (Noder bod maint y sampl yn llai perthnasol mewn ymchwil ansoddol)
- Diffyg data ar gael a/neu ddata dibynadwy
- Diffyg astudiaethau ymchwil blaenorol ar y pwnc
- Y mesurau a ddefnyddir i gasglu'r data
- Data hunan-adroddol (Yn ystyried cof dewisol a thelesgopio).

Mae tair prif anfantais yn gysylltiedig yn aml â samplau bach, ac rydym wedi llwyddo i oresgyn pob un ohonynt i raddau amrywiol.  Sef:

Anfantais 1: Amrywioldeb

- Mae amrywioldeb yn cael ei bennu gan wyriad safonol y boblogaeth; gwyriad safonol sampl yw pa mor bell yw gwir ganlyniadau'r arolwg o ganlyniadau'r sampl a gasglwyd.

Gan ystyried hynny, gwelir bod y canfyddiadau presennol yn ddefnyddiol ac yn gywir gan fod pob Awdurdod Lleol Cymreig wedi cymryd rhan ac wedi rhoi mewnbwn i'n hymchwil.

Anfantais 2: Tuedd y Cwmpas

- Mae maint sampl bach hefyd yn effeithio ar ddibynadwyedd canlyniadau'r arolwg gan ei fod creu amrywioldeb uwch, a allai arwain at duedd; yr achos mwyaf cyffredin o duedd yw canlyniad diffyg ymateb. Ceir diffyg ymateb pan nad yw rhai pobl heb gael cyfle i gymryd rhan yn yr arolwg.

Unwaith eto, er gwaethaf maint cymharol fach y sampl yn ein hymchwil, llwyddom serch hynny i gyrraedd ein nod o 100% o'r nifer a gyfranogodd, gan felly sicrhau nad oedd unrhyw bryderon ynghylch tuedd y cwmpas.

Anfantais 3: Tuedd Ymateb Gwirfoddol

- Mewn samplo arolwg, mae tuedd ymateb gwirfoddol yn digwydd pan fydd aelodau'r sampl yn wirfoddolwyr hunanddewisol, yn union fel samplau gwirfoddol.

Er roedd ein haelodau'n wirfoddolwyr, llwyddodd ein hymchwil i osgoi unrhyw bryderon ynghylch tuedd ymateb gwirfoddol drwy gynnwys ymatebion a mewnbwn gan yr holl gyfranogwyr perthnasol.

## 2.2 CYFNODAU CASGLU DATA

Casglwyd y data dros bedwar cyfnod. Pwrpas defnyddio'r cyfnodau penodol oedd er mwyn casglu ymateb eang ac amrywiol i'r cwestiynau a ofynnwyd mewn amryw o ffyrdd. Efallai bod ein dull o gwestiynu wedi ymddangos yn ailadroddus, ond i sicrhau y gallem wirio cysondeb yr ymatebion unigol, aralleiriwyd y cwestiynau yn y gwahanol gyfnodau.

### 2.2.1 CYFNOD UN:

Cyflawnom ddadansoddiad o ymarferion cofrestru disgyblion Awdurdod Lleol ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth PRU ac EOTAS. Diben y dadansoddiad oedd i nodi unrhyw gysylltiadau posibl rhwng statws cofrestru a deilliannau. Roedd adnoddau yn cynnwys gwybodaeth ystadegol a gyflwynwyd mewn naw tabl gwahanol. Wyth tabl a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, a thabl naw a ddarparwyd gan y tîm ymchwil.

**Tablau a ddarparwyd gan y client**: (Atodiad I)

- Tabl 1: Nifer o Ddisgyblion a Addysgwyd OTAS Fesul Awdurdod Lleol 2015/16
- Tabl 2: Nifer o Ddisgyblion y mae eu Prif Addysg yn OTAS Fesul Awdurdod Lleol 2015/2016
- Tabl 3: Disgyblion y mae eu Prif Addysg Heblaw yn yr Ysgol, Fesul Oed a Rhyw
- Tabl 4: Disgyblion y mae eu Prif Addysg yn OTAS, Fesul Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)
- Tabl 5: Disgyblion y mae eu Prif Addysg yn OTAS, Fesul Darpariaeth Addysgol 2015/16
- Tabl 6: Cyrhaeddiad Cynhwysol Lefel 2 Disgyblion PRU ac EOTAS, fesul Awdurdod Lleol 2015/2016
- Tabl 7: Dangosyddion Allweddol CA4 gan ALl a Chonsortia ar gyfer Disgyblion EOTAS 2015/16
- Tabl 8: Dangosyddion Allweddol CA4 gan ALl a Chonsortia ar gyfer Disgyblion PRU 2015/16

**Tabl a gyrchwyd gan y tîm ymchwil:**

- Tabl 9: Myfyrwyr yn Cyrchu EOTAS, 5-16, 2015/2016 Wedi Didoli Fesul Maint y Boblogaeth *(Canol y Flwyddyn – Mehefin)*[5]

Awgrymodd y dadansoddiad o'r data ystadegol o'r cam cyntaf, o edrych ar y cyflwyniad gweledol mae yna gyswllt posibl rhwng cofrestru disgyblion a deilliannau. Er enghraifft, awgrymwyd fod cofrestriad gyda darpariaeth EOTAS, ar rhyw ffurf, yn debygol o effeithio'n negyddol ar lefelau cyrhaeddiad. Fodd bynnag, gan nad oes esboniad digonol o'r data, nid yw'n briodol cadarnhau'r awgrym cychwynnol hwn.

Awgrymodd y dadansoddiad fod yna nifer o amrywiolion, nad ydynt yn newid y data, ond sy'n darparu gwell dealltwriaeth o'r data. Golyga cymhlethdod ac amrywiaeth disgyblion yn cael eu cyfeirio at EOTAS y dylai'r mathau o ddata a gesglir adlewyrchu'r amrywiaeth hon. Dim ond gyda'r data amrywiol hwn y gellir ateb y cwestiwn o a oes yna gysylltiadau posibl rhwng statws cofrestru EOTAS a deilliannau.

Mewn rhai achosion, gallai'r data yma arddangos cynnydd tu hwnt i ddisgwyliadau. Amrywiolion a awgrymir i'w hystyried wrth bennu cynnydd yw *(er nad yn restr gynhwysfawr*):

- llythrennedd, rhifedd a lefelau dealltwriaeth cyn cael mynediad at ddarpariaeth EOTAS
- lefel cyrhaeddiad cyn cael mynediad at ddarpariaeth EOTAS
- faint o amser y bu'n mynychu'r ddarpariaeth EOTAS
- rhesymau dros atgyfeirio
- cyfranogiad addysgol cyn cael mynediad at ddarpariaeth EOTAS
- lles corfforol ac emosiynol

Yn seiliedig ar gasgliadau'r cam cyntaf (Atodiad I) fe sefydlom bum cwestiwn cyffredinol:

- A yw awdurdodau lleol wedi mabwysiadu arferion cofrestru safonedig?
- Beth oedd y resymeg dros beidio mabwysiadu arferion cofrestru safonedig?
- Sut ellir gwella arferion cofrestru a deilliannau myfyrwyr?
- Beth yw manteision ac anfanteision cofrestru deuol?

[5] Https://Statswales.Gov.Wales

- Beth yw manteision ac anfanteision cofrestru sengl?

2.2.2 CYFNOD DAU:

Fe ddosbarthom holiadur electronig (atodiad II) yn cynnwys pump thema cyffredinol i bob awdurdod lleol. Darparwyd rhestr gyswllt gychwynnol gan Lywodraeth Cymru tra bod holiaduron pellach wedi eu hanfon allan yn defnyddio'r dull sampl pelen eira. Dychwelodd dros 80% o awdurdodau lleol holiaduron.

2.2.3 CYFNOD TRI:

Siaradom gyda dros 45 o weithwyr proffesiynol yn gweithio yn y pedwar maes consortia yn ystod cyfarfodydd wyneb yn wyneb lled strwythuredig a chyflawni un cyfweliad dros y ffôn. Mae Tabl 1 yn rhoi dadansoddiad o pwy a gyfrannodd i'r adroddiad hwn trwy gwblhau'r holiadur neu trwy gyfweliad:

Tabl 1: Cyfranogwyr yr Ymchwil

| **Cyfranogwyr a gyfrannodd i'r Ymchwil** *(ALl a gyfrannodd – 22)* | |
|---|---|
| Swyddogion ALl | 27 |
| Staff PRU / EOTAS | 8 |
| Staff Ysgol Prif Ffrwd | 3 |
| Staff Ysgol Arbennig | 2 |
| Swyddogion MIS | 9 |
| **Cyfanswm** | **49** |

2.2.4 CYFNOD PEDWAR:

Fe ddarparom un gweithdy adborth yn Ne Cymru. Trefnwyd gweithdy adborth Gogledd Cymru ond oherwydd amgylchiadau tu hwnt i'n rheolaeth, bu'n rhaid canslo'r gweithdy.

2.3. MOESEG:

- Roedd ein dull wedi'i gydbwyso o ran daearyddiaeth ac iaith.
- Cynhwyswyd pob un o'r pedwar rhanbarth consortiwm.
- Siaradom â gweithwyr proffesiynol yn gweithio mewn ardaloedd gwledig, trefol, â phoblogaeth ddwys a rhai llai poblog.
- Rhoddodd pawb a gafodd ei gyfweld ei ganiatâd.
- Cysylltwyd ag Awdurdodau Lleol drwy e-bost neu ar y ffôn, ac eglurwyd nod yr

ymchwil iddynt.

- Roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn pryderu ynglŷn â chael eu hadnabod yn yr adroddiad, felly cytunwyd y byddai’r holl adborth yn anhysbys.

## 3.0. YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

### 3.1. A YW AWDURDODAU LLEOL WEDI MABWYSIADU ARFERION COFRESTRU SAFONEDIG?

Adroddodd pob Awdurdod Lleol a ymatebodd eu bod yn ceisio sefydlu arferion cofrestru safonedig, er bod yr arferion yn amrywio ym mhob Awdurdod Lleol. Adroddodd nifer fechan o ALlau o bob un o'r Rhanbarthau Consortia bod ganddynt arferion gwahanol ar gyfer disgyblion EOTAS a PRU.

- '…*Weithiau mae cofrestru gyda PRUs yn gliriach am eu bod fel arfer wedi cofrestru mewn un lle… tra bod myfyrwyr EOTAS yn aml yn mynychu nifer o ddarpariaethau gan ei gwneud yn anodd trafod pethau…'*
- *'…mae yna arferion safonol ar gyfer atgyfeiriadau EOTAS ac arferion safonol ar gyfer atgyfeiriadau PRU ond nid wastad yr un broses…'*

Adroddodd staff MIS bryderon ynghylch plismona annigonol, ac nad oes neb yn ymddangos i fod ag 'awdurdod' i orfodi arferion cofrestru safonedig:

- *'…Na – rydyn ni wedi ceisio, ond does gennym ni ddim yr awdurdod i'w orfodi – weithiau mae yna hyd yn oed gamddefnydd o godau B a D…'*
- '…*Rydyn ni wedi ceisio, ond weithiau mae'n ddryslyd oherwydd mae ceisio deall pwy sy'n gyfrifol am gomisiynu darpariaeth EOTAS yn anodd…*'

Teimlai'r rhan fwyaf (16) o Awdurdodau Lleol fod materion cofrestru disgyblion yn creu heriau rhwng ysgolion prif ffrwd ac EOTAS:

- '…[Mae] *mor safonedig â phosibl ond fe wyddom fod hyn yn newid ym mlwyddyn 11…'*
- *'…Mae'n amrywio - mewn egwyddor byddwn yn defnyddio deuol, Ysgol (atodol), PRU (prif) pan fyddan nhw gyda ni, ac i'r gwrthwyneb - ond mewn gwirionedd, dydy hyn ddim yn digwydd fel y dylai; dydy ysgolion ddim eisiau'r dangosyddion fel presenoldeb a chanlyniadau arholiadau yn eu herbyn felly mae pethau'n annelwig braidd...'*
- '…*mae'r diffiniad o EOTAS yn broblem: rydyn ni wedi cael sawl gwrthdaro gydag ysgolion o ran hyn a sut i gofrestru…*'

Cofrestru deuol

Er bod ALlau wedi adrodd ceisio defnyddio ymagwedd safonedig ar gyfer y myfyrwyr hynny nad ydynt wedi eu heithrio'n barhaol (PEX) ond yn cael mynediad at ddarpariaeth EOTAS/PRU, roeddynt hefyd yn adrodd problemau o ran cynnal y dull hwn. Yn ogystal, mae rhai awdurdodau lleol wedi disgrifio systemau cofrestru deuol oedd yn unigryw i'w ALl:

- '…*cofrestru deuol yn bennaf…mae yna adegau pan mae'n anodd iawn i'w reoli, yn arbennig o amgylch CYBLD a blwyddyn 11*…'
- '…*mae pob myfyriwr blwyddyn 11 EOTAS wedi cofrestru fel prif gyda EOTAS ac atodol gyda'r ysgol. Mae hyn er mwyn lleihau gormod o symud o gwmpas ar adegau penodol o'r flwyddyn… yn arbennig cofnodi deilliannau disgyblion…*'
- *'…mae'r holl fyfyrwyr EOTAS wedi eu cofrestru fel prif gyda'r ysgol ar bob cam – mae hyn yn golygu fod pob ysgol yn gyfrifol am ddeilliannau myfyrwyr CA4. Mae'n golygu fod ffigurau presenoldeb yn fwy cywir…mae'r plant yna sydd wedi eu heithrio wedi eu cofrestru fel prif EOTAS…'*

Cofrestru Sengl

Defnyddiwyd cofrestru sengl gydag EOTAS gan bob Awdurdod Lleol yn ymateb ar gyfer y disgyblion hynny oedd wedi eu heithrio'n barhaol o'r ysgol brif ffrwd ac ar gyfer y disgyblion hynny yn cyrraedd yn yr Awdurdod Lleol gyda lle penodedig mewn ysgol.

- '…*Mae disgyblion heb le ysgol cyfredol ar adeg CYBLD naill ai'n cael eu cofrestru gydag EOTAS neu diwtora arbennig fel Prif gofrestriad…'*

I grynhoi, mae adborth yn awgrymu fod yna ymdrechion clir i sefydlu arferion cofrestru safonedig ar lefel leol, ond fod yna heriau. Mae'r heriau hyn yn fwy amlwg yn ystod cyfnodau penodol yn y flwyddyn ysgol ac ar draws Cymru yn codi'r cwestiwn o gywirdeb o ran adrodd data, yn arbennig ymysg swyddogion MIS.

## 3.2. RHESYMEG DROS BEIDIO MABWYSIADU ARFER COFRESTRU SAFONEDIG

Disgrifiodd dros 60% (13) o'r holl Awdurdodau Lleol a ymatebodd anawsterau o ran sefydlu proses gofrestru safonedig oherwydd eu bod yn credu fod y diffiniad cyfredol o EOTAS yn caniatáu ar gyfer gwahanol ddehongliadau, a arweiniodd at ddryswch a heriau, e.e.:

- '…*does neb yn plismona sut mae ALlau yn cofrestru myfyrwyr – mae'n rhy hawdd peidio defnyddio'r system yn gywir*…' (Swyddog MIS)

Pan ofynnwyd am systemau plismona lleol, nid oedd ymatebwyr yn teimlo fod yna un person arweiniol gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros gyflawni'r rôl hon:

- '*…ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd gennym un swyddog lles addysg (EWO) yn gweithio gyda phob PRUs, ond mae hynny wedi newid oherwydd cyllid… roedd un ni'n herio ffigurau presenoldeb ysgol os oeddynt yn rhyw wahanol i un ni… nawr mae'n brin i mi gael unrhyw gyswllt gydag EWO…*' *(Arweinydd PRU)*

## 3.3. ARFERION COFRESTRU A GWELLA DEILLIANNAU MYFYRWYR

Nid oedd yr un o'r ymatebwyr yn credu fod sut y cofrestrwyd disgybl yn effeithio ar wella deilliannau disgyblion. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn credu fod arferion cofrestru cyfredol Awdurdod Lleol yn:

- Creu mantais i ystadegau dangosydd cenedlaethol ysgol prif ffrwd,
- Creu anfantais i EOTAS a PRUs wrth adrodd ar bresenoldeb a deilliannau disgyblion.

Awgrymodd yr adborth ers Medi 2016, a gyda'r defnydd cynyddol o'r System Rheoli Gwybodaethol Ysgolion (SIMS) gan weithwyr EOTAS, *'…mae'n haws olrhain deilliannau ein myfyrwyr…'* (swyddog SIMS). Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn glir nad oeddynt yn gweld sut oedd gan SIMS unrhyw beth i'w wneud gyda gwella deilliannau myfyrwyr, er eu bod yn cydnabod mai nid dyna oedd ei bwrpas.

Thema oedd yn codi dro ar ôl tro yn yr adborth oedd pryderon ynghylch y diffyg tryloywder mewn arferion cofrestru, deilliannau a 'gwir rôl' EOTAS:

- '*…mae'n anodd gwybod beth mae'n ddweud am nad yw'r data yn gywir… mae'n newid i weddu i anghenion yr ysgolion ond nid y disgybl na'r PRUs neu EOTAS...* '
- '…*efallai y bydd disgybl wedi cael bron ei holl addysg mewn ysgol prif ffrwd, wedi dod i EOTAS yn ystod CA4, ond os yw wedi cofrestru fel prif EOTAS yna bydd yn rhaid i EOTAS fod yn atebol am ddeilliannau gwael…gall yr ysgol fod wedi bod yn methu darparu ar gyfer disgybl am 10 mlynedd ond oherwydd sut y camddefnyddir cofrestru mae EOTAS neu PRU yn ymddangos i fod yn methu*…'
- '…*roedd un o'n myfyrwyr, oedd wedi cofrestru gyda ni fel prif, yn gwneud yn arbennig o dda…amcangyfrifwyd y byddai'n cyflawni'r trothwy L2+…fe newidiodd yr ysgol y cofrestriad i ysgol yn brif, er ei bod gyda ni pob dydd*…'
- *'… dim ond ysgolion all elwa o'r broses gofrestru gyfredol…'*

Cwestiwn cyffredin a holwyd gan y rhai yn cael eu cyfweld oedd ynghylch *'…diben casglu data cofrestru a deilliannau...'.* Pryd bynnag y gofynnom y cwestiwn hwn, cafwyd sylwadau oedd yn cyffwrdd ar rôl PRUs ac EOTAS. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn teimlo na fyddai mwyafrif y myfyrwyr sy'n derbyn darpariaeth EOTAS yn ffitio i mewn i ysgolion arbennig, a bod mesur myfyrwyr EOTAS yn erbyn y rhai yn y brif ffrwd yn fath o feincnodi nad yw'n cynnig *'maes chwarae gwastad'.*

- *'…ni ddylid mesur EOTAS yn erbyn ysgolion, fel y maent ar hyn o bryd... byddai dangosyddion gwahanol yn rhoi darlun cliriwch o'r gwaith a llwyddiant ein disgyblion... nid yw ysgolion arbennig yn cael eu mesur ar y nifer o fyfyrwyr yn cyflawni'r trothwy L2+…'*

Pryder pellach a fynegwyd gan ymatebwyr oedd nad yw arferion cofrestru cyfredol yn gwahaniaethu rhwng gwahanol ddarpariaethau EOTAS. Mae EOTAS yn amrywiol; gyda darparwyr ar bob ffurf a llun. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid yw arferion cofrestru yn caniatáu i Awdurdodau Lleol nodi'r math o ddarpariaeth EOTAS y gall disgybl fod yn ei ddefnyddio. Mae'r diffyg yma yn golygu nad yw Awdurdodau Lleol yn gallu arddangos cryfderau darpariaeth EOTAS unigol ar lefel genedlaethol.

## 4.0. MANTEISION AC ANFANTEISION COFRESTRIAD DEUOL

Manteision

Y ddwy fantais a nodwyd o 100% o ymatebwyr yr holiaduron oedd y syniad fod ysgolion yn parhau i fod yn gyfrifol am y disgybl, a bod cofrestriad deuol yn sicrhau bod cyfle i'r disgybl ddychwelyd i'r brif ffrwd. Roedd y manteision hyn wedi eu cysylltu'n bennaf i'r disgyblion hynny mewn addysg gynradd neu gyfnod allweddol 3 (CA3). Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny gwblhaodd yr holiaduron ac yna'u cyfweld: ‘Pam myfyrwyr cynradd a CA3 yn benodol?’. Yr ymateb cyffredin oedd:

- ‘gall symud plant yn ôl ac ymlaen rhwng ysgolion a PRUs yn ystod CA4 darfu'n ddifrifol ar y cyfnod cyn arholiadau diwedd y flwyddyn…mae nhw angen mwy o gysondeb yn ystod CA4…’

Yn ystod cyfweliadau a gweithdai, roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yr un fath. Roedd sylwadau yn cynnwys:

- ‘…*mae'n golygu na all ysgol eu gollwng…mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer plant nad ydynt yn academaidd neu blant sy'n cael anhawster mewn addysg am resymau cymdeithasol...*’
- ‘…*mae cofrestru deuol yn rhoi'r gallu i'r plentyn ddychwelyd i'r ysgol. Gall ALlau hefyd gael mynediad at adnoddau ysgol ar gyfer myfyrwyr, a gall fod yn declyn bargeinio gyda phlant a theuluoedd…*

O safbwynt ysgolion prif ffrwd, mantais glir a nodwyd gan dros 95% (47) o'r rhai a gyfwelwyd, ymatebion holiadur a chyfranogwyr gweithdy oedd fod cyllid yn aros yn yr ysgolion prif ffrwd.

Fodd bynnag, roedd adborth yn glir petai yna blismona mwy llym o'r system, a bod gan yr holl Awdurdodau Lleol ymagwedd gyffredin, yna byddai cofrestriad deuol yn fwy llwyddiannus.

Anfanteision

Mae adborth yn awgrymu fod anfanteision ar gyfer cofrestriad deuol yn dod yn uniongyrchol o gamddefnydd o'r broses, yn arbennig ar ddiwedd CA4.

- '…*o safbwynt PRU, anfantais yw pam fydd ysgolion yn newid y cofrestriad Prif ac Atodol i fodloni eu hanghenion...' (cyfwelai)*
- *'…mae yna ddata presenoldeb anghyfreithiol yn cael ei gyflwyno mewn ysgol prif ffrwd…yn aml mae ysgolion yn ffeilio codau D a B mewn bloc pan mewn gwirionedd mae gan fyfyrwyr bresenoldeb llawer is mewn EOTAS…mae yna hefyd ddryswch ynghylch defnydd o godau D a b mewn rhai ysgolion…' (swyddog SIM)*
- '… *dim proses herio glir ar gyfer cofrestriad deuol, nid yw data cofrestru yn lân bob tro… gallai disgybl fod wedi ei gofrestru mewn ysgol fel cod D gyda phresenoldeb o 100% ond mae'r presenoldeb yn EOTAS yn llawer is, 40%...*' *(cyfwelai)*
- *'…gall diogelu fod yn anfantais… gallai arwain at golli disgyblion… pwy sy'n gyfrifol, EOTAS neu'r ysgol…' (holiadur)*
- '…*mae cyllid yn aros gyda'r ysgol brif ffrwd...maen nhw'n cael gwared ar ddisgyblion nad ydynt yn gallu eu rheoli ond hefyd yn cadw'r arian… dydy hyn ddim yn helpu…*' *(cyfwelai)*

Yn ystod cyfweliadau wyneb yn wyneb, gofynnom i'r cyfweleion ehangu ar eu hymatebion, e.e. *'…meysydd y mae ysgolion yn dal yn gyfrifol amdanynt pan mae gan ddisgyblion gofrestriad deuol…*'. Soniodd bron i 90% (25) am beth 'ddylai ysgolion ei wneud':

- *'…adrodd presenoldeb a deilliannau...'*
- *'…, dim ond nawr eich bod yn gofyn i mi esbonio ydw i'n sylweddoli mai beth dwi'n ei olygu yw eu bod yn dal i fod â meddiant o'r disgybl, ond mewn gwirionedd, dydy hynny ddim yn digwydd…dydyn nhw ddim yn cymryd cyfrifoldeb am ddiogelu, dydyn nhw ddim wastad yn trefnu'r cyfarfodydd cadeirio sy'n adolygu eu cynnydd…'*

Awgrymodd adborth gan yr holl ymatebwyr (MIS, ALl, a swyddogion EOTAS/PRU) fod gwyriad statws cofrestru yn fwy amlwg yn ystod CA4; mae mwy o ddisgyblion yn cael eu cofrestru yn ystod y cyfnod allweddol hwn, yn arbennig Blwyddyn 11, nag ar gyfer unrhyw grŵp disgyblion arall.

Yn ystod un cyfweliad wyneb yn wyneb, arddangoswyd y pryder am bresenoldeb cywir. Roedd presenoldeb a adroddwyd gan y PRU ar gyfer disgybl gyda chofrestriad deuol ac adrodd gan y brif ffrwd ar yr un myfyriwr yn dangos gwahaniaeth o dros 40%. Roedd y brif ffrwd wedi adrodd 100%, tra bod presenoldeb PRU yn llai na 60%. Dywedwyd wrthym fod y ffigurau presenoldeb PRU wedi eu darparu i'r ysgol brif ffrwd.

Wrth ddelio â'r mater hwn, disgrifiodd un Awdurdod Lleol fod ganddynt un swyddog lles addysg (EWO) yn gweithio'n benodol rhwng ysgolion a darpariaeth EOTAS, gan fonitro cofnodi presenoldeb. Fe adroddont leihad mewn ‘gwallau’ mewn data presenoldeb a gyflwynwyd yn lleol ac yn genedlaethol.

Deliodd ail Awdurdod Lleol gyda'r un mater trwy ddatblygu rôl un swyddog MIS fel y person cyfrifol am gasglu ac adrodd yr holl ddata EOTAS. Roedd gan y swyddog drosolwg o'r holl ddata presenoldeb trwy'r Awdurdod Lleol, a oedd yn addasu'r data presenoldeb a adroddwyd ar lefel leol a chenedlaethol yn sylweddol.

Cipiodd ymateb gan un cyfwelai ysgol uwchradd farn mwyafrif y gweithwyr EOTAS a PRU oedd yn ymwneud â'r prosiect hwn:

*‘…o safbwynt ysgol, dwi'n deall y rwystredigaeth y bydd PRUs yn deimlo oherwydd mae'n edrych fel petaent yn gyfrifol am ychydig iawn neu fawr ddim cyrhaeddiad TGAU...efallai bod disgybl wedi bod yn y brif ffrwd am 10 mlynedd o'i oes ysgol...efallai y bydd ysgolion wedi methu o ran disgybl, ond oherwydd y gallant newid y statws cofrestriad, y PRU sy'n cael y bai… dwi'n deall y byddai hynny'n rhwystredig iawn…’*

I grynhoi, awgryma adborth fod y canllaw cyfredol ar ddefnyddio Cod Cofrestru D[6] yn cael ei ddehongli/aflunio'n fwriadol i greu mantais i'r ysgol brif ffrwd. Er enghraifft, mae'r canllaw cyfredol ar ddefnyddio Cod Cofrestru D fel a ganlyn:

"*Mae'r ysgol y disgwylir i'r disgybl fod yn bresennol ynddi yn gyfrifol am gofnodi presenoldeb y disgybl yn gywir ac ymchwilio i unrhyw achos o absenoldeb. Dylid cofrestru disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol mewn dwy ysgol fel y cyfryw yn systemau gwybodaeth reoli (MIS) y ddwy ysgol o dan "statws cofrestru disgybl". Er enghraifft - mae myfyriwr ar y gofrestr yn ysgol A ond yn bresennol yn ysgol B (a allai fod y PRU neu'n ysgol arbennig).*

- *Ysgol A – cofnod M (Prif sefydliad – cofrestriad deuol)*
- *Ysgol B – cofnod S (Sefydliad atodol – cofrestriad deuol)"*

*(*Canllawiau ar godau presenoldeb yn yr ysgol, 2010, Tudalen 13)

Mae'r canllaw yn amlygu'r angen i fyfyrwyr gyda chofrestriad deuol i fod ag un ysgol wedi ei nodi fel prif sefydliad ac un ysgol wedi ei nodi fel sefydliad atodol. Fodd bynnag, mae'r canllaw yn ei gadael yn agored sut i benderfynu ar '*pa'* ysgol a gofrestrir fel y prif sefydliad a pha un sydd wedi cofrestru fel atodol. Yr ysgol a gofrestrir fel prif sefydliad fydd yn gyfrifol am gyhoeddi deilliannau.

[6] Llywodraeth Cymru, Canllawiau ar godau presenoldeb yn yr ysgol, Mehefin 2010

## 5.0. MANTEISION AC ANFANTEISION COFRESTRIAD SENGL

Cofrestriad sengl yw pan fydd disgybl wedi cofrestru mewn un ysgol ar gyfer statws cofrestru; gall hyn fod yn ysgol brif ffrwd, ysgol arbennig neu ddarpariaeth EOTAS.

Manteision

Y fantais a nodwyd amlaf ar gyfer defnyddio cofrestriad sengl oedd pryder am y disgyblion sydd wedi eu heithrio'n barhaol o'r ysgol brif ffrwd:

- *'…mae'n bwysig cael system ble nad yw disgyblion nad ydynt ar hyn o bryd ar gofrestr ysgol oherwydd PEX* (Eithriad Parhaol) *wedi eu cofrestru unman…bydd hefyd yn cynyddu dryswch ynghylch diogelu a phwy sy'n gyfrifol…*'

Roedd ymatebwyr yn ystyried cofrestriad sengl i fod yn system oedd yn cynyddu'r '*…tebygolrwydd o gael data mwy tryloyw…*'

Mantais glir gan weithwyr yn mynychu gweithdai ac yn ystod cyfweliadau wyneb yn wyneb oedd:

- *'…Pe na fyddai yna gofrestriad PRU neu EOTAS (ar gyfer y myfyrwyr hynny nad ydynt yn PEX) byddai'n rhaid i bawb gymryd cyfrifoldeb o ran deilliannau a byddai'n dechrau creu data glanach a gwir adlewyrchiad o beth sy'n digwydd ledled Cymru…'*

Daeth un fantais a nodwyd ar lefel genedlaethol gan gyfwelai ysgol uwchradd prif ffrwd â'r mater o ddata glân yn ôl i'r amlwg:

- *'…pe byddai'n rhaid i bob ysgol wneud hyn…ar draws Cymru byddai gennym faes chwarae gwastad…os nad yw ysgol eisiau cyhoeddi deilliannau a phresenoldeb y disgyblion hynny maent wedi eu gosod mewn EOTAS, byddai'n rhaid iddynt eithrio'n barhaol, ond o leiaf byddai'n onest…*'

Anfanteision

Roedd 100% o'r ymatebwyr yn credu y byddai cofrestriad sengl, ar gyfer disgyblion a gofrestrwyd mewn PRUs a disgyblion wedi cofrestru mewn EOTAS, yn rhwystr i'r

disgyblion hynny'n dychwelyd i ysgol brif ffrwd; yn arbennig y rhai mewn addysg gynradd ac yn CA3.

Pryder cyffredin ymysg ysgolion, Swyddogion ALl a staff PRU oedd y byddai defnyddio cofrestriad sengl mewn ysgolion yn arwain at gynnydd mewn eithriadau parhaol ar draws Cymru. Awgrymwyd y byddai'r ysgolion hynny sy'n defnyddio darpariaeth EOTAS ac sy'n pryderu am gyhoeddi deilliannau disgyblion yn ei chael yn anodd osgoi'r mater hwn heb ddefnyddio eithrio parhaol.

I grynhoi, roedd ymatebwyr yn ystyried fod ‘cofrestriad sengl PRU’ yn rhwystr i ailintegreiddio disgyblion yn ôl i ysgolion prif ffrwd. Fodd bynnag, adroddodd ymatebwyr hefyd y byddai cofrestriad sengl yn effeithio ar y data sy'n cael ei gyflwyno, yn benodol y ffigurau presenoldeb a gyflwynir gan ysgol brif ffrwd sydd â disgybl yn cyrchu darpariaeth EOTAS yn y tymor hir.

Roedd ymatebwyr yn ystyried fod cofrestriad sengl yn gam positif ymlaen, pe byddai pob ysgol yng Nghymru yn defnyddio arferion cofrestriad sengl yn unig, gan gynnig cyfleoedd ar gyfer adrodd data ‘glanach’ a ‘maes chwarae gwastad’.

## 6.0. SYLWADAU TERFYNOL

I grynhoi, awgryma adborth gan yr holl ALlau sy'n ymateb fod yna wahaniaethau ar draws Cymru (ac i raddau o fewn Awdurdodau Lleol) yn sut mae disgyblion sy'n cyrchu darpariaeth EOTAS yn cael eu cofrestru. Fodd bynnag, mae ceisiadau i sefydlu dulliau cofrestru safonedig yn digwydd ar draws Cymru.

Adroddodd ymatebwyr ddiffyg plismona o ran y data a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, gan awgrymu fod hyn yn creu darlun aneglur o ddata, yn arbennig wrth ddehongli defnydd o gofrestriad deuol. Disgrifiodd dwy ALl sut maent yn delio â'r pryderon hyn: roedd un ALl wedi datblygu rôl benodedig ar gyfer EWO, a'r ALl arall wedi creu rôl benodedig swyddog MIS. Adroddir bod y ddau ddull wedi addasu'r data a gyflwynir yn sylweddol.

Pwynt arall a godwyd yn ystod cyfweliadau wyneb yn wyneb, ymatebion holiadur a gweithdai oedd fod disgyblion yn gyffredinol yn cael eu cyfeirio at EOTAS oherwydd ymddygiad, ond eu bod yn dal i gael eu mesur yn erbyn dangosyddion academaidd. Awgrymodd adborth y dylai dangosyddion llwyddiant fod yn fwy cysylltiedig i'r rheswm dros atgyfeirio ac nid i statws eu cofrestriad.

Roedd hyn yn fater yr oedd llawer yn teimlo'n gryf yn ei gylch, ac fe obeithir y bydd y datrysiadau ymarferol canlynol yn helpu tawelu pryderon yr adroddir ar ddisgyblion EOTAS mewn ffordd negyddol.

## 7.0. DATRYSIADAU YMARFEROL

7.1. <u>Opsiwn Un - Parhau gyda'r arferion cofrestru disgyblion presennol heb ychwanegiadau.</u>

Byddai hyn yn golygu na fyddai unrhyw newidiadau i arferion cyfredol:

- <u>Manteision</u>:
    - Mae gweithwyr proffesiynol eisoes wedi sefydlu arferion (*efallai nad ydynt yn arferion da, ond dyma'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd ac maent yn hysbys i'r gweithwyr*)
    - Dim costau amser datblygiad proffesiynol parhaus (CPD) i'r ysgol na'r Awdurdod Lleol
    - Dim costau ariannol CPD i'r ysgol na'r Awdurdod Lleol

- <u>Anfanteision</u>:
    - Cwestiynau yn dal i godi ynghylch ansawdd y data a gyflwynir
    - Data cofrestriad disgyblion yn dal i gael ei aflunio
    - Diogelu yn parhau i fod yn bryder – pwy sy'n gyfrifol?

7.2. <u>Opsiwn Dau - Parhau gyda'r arferion cofrestru disgyblion presennol gydag ychwanegiadau:</u>

- Cyflwyno monitro
- Cyflwyno 'cyfleoedd' i newid statws cofrestriad disgybl
- Cyllid disgybl ddim yn aros gyda'r ysgol, os yw disgybl wedi ei gofrestru fel 'prif sefydliad' gyda PRU, ond yn dychwelyd i'r Awdurdod Lleol (addasiadau i gytundebau cyllido, ar lefel leol)

Byddai hyn yn golygu parhau gyda'r arferion cofrestru cyfredol sy'n unigryw i bob ALl, y mae'r adroddiad hwn wedi dangos i fod yn un a feirniedir yn bennaf gan ymatebwyr. I liniaru'r pryderon a godwyd yn Adran 3, byddai'r opsiwn yma yn cynnwys datblygu disgrifiad swydd ar gyfer aelod o'r tîm MIS. Byddai'n cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am oruchwylio data cofrestru a herio amrywiaethau data rhwng ysgolion, PRUs a darparwyr EOTAS eraill.

Ar draws Cymru, cyflwyno cyfnodau amser neu ‘ffenestri trosglwyddo’ a gytunir arnynt yn ystod y flwyddyn ysgol pan fydd ysgolion, sydd â disgyblion eisoes yn cyrchu darpariaeth EOTAS, yn gallu newid cofrestriad disgybl.  Er enghraifft, nodi cyfnod amser cyfyngedig yn ystod tymhorau'r hydref a'r haf ble gellir gwneud ac addasu cofrestriadau prif sefydliad ac atodol.

Ar hyn o bryd, mae adborth yn awgrymu fod ysgolion prif ffrwd yn trosglwyddo cofrestriadau ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn ysgol, er enghraifft, cyn cyhoeddi deilliannau myfyrwyr. Byddai cyflwyno ‘ffenestr drosglwyddo’, yn gofyn am dystiolaeth ddogfennol ar gyfer trosglwyddo cofrestriad, yn helpu lleihau, neu gadarnhau, amheuaeth gan weithwyr PRU/EOTAS fod yr arfer yma'n cael ei ddefnyddio i wella deilliannau ysgolion prif ffrwd (byddai nodi'r amseriad gorau ar gyfer ‘ffenestr drosglwyddo’ o'r fath yn fater i gytuno arno tu allan i'r adroddiad hwn). Yn ogystal, byddai'r arfer newydd hwn yn darparu tystiolaeth a allai helpu nodi themâu neu faterion sy'n ysgogi newidiadau mewn statws cofrestru ar lefel leol (yn ogystal ag ar draws Cymru). Gallai'r wybodaeth atodol hon helpu cynllunio tymor byr, canolig a hir i daclo unrhyw faterion a amlygwyd.

I fod o fudd i ddarpariaeth EOTAS, byddai cyllid disgyblion yn cael ei ail neilltuo i Awdurdodau Lleol ar y dyddiad a gytunwyd ar gyfer newid statws cofrestriad. Er enghraifft, os yw cofrestriad disgybl wedi newid yn ystod wythnos hanner tymor yn ystod tymor yr hydref, byddai'r ALl yn darparu anfoneb i'r ysgol brif ffrwd ar gyfer yr holl gyllid sy'n weddill ar gyfer tymhorau'r hydref, gwanwyn a'r haf. Byddai'r newid hwn mewn arferion yn delio â'r pryder, sydd eisoes wedi ei nodi yn yr adroddiad hwn (mae Swyddogion ALl ac ymatebwyr PRU/EOTAS oll wedi mynegi pryderon) fod y rhan fwyaf o ysgolion ALl yn dal i dderbyn cyllid ar gyfer myfyrwyr nad ydynt bellach yn mynychu'r ysgol brif ffrwd, ond sy'n dal i gyrchu darpariaeth EOTAS.

Ar gyfer y disgyblion hynny sy'n integreiddio yn ôl i ysgol brif ffrwd, byddai'r broses yn gwyrdroi gyda'r ysgol yn darparu anfoneb i'r ALl o'r dyddiad y cytunir i newid y statws cofrestriad.

- Manteision:
    - Mae gweithwyr proffesiynol eisoes wedi sefydlu arferion (*efallai nad ydynt yn arferion da, ond dyma'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd ac maent yn hysbys i'r gweithwyr*)
    - Costau ariannol ac amser staff CPD cyfyngedig i ysgolion ac Awdurdodau Lleol
    - Darparu data cywir o gofrestriad disgyblion
    - Darparu data lleol a chenedlaethol o gyfnodau sylweddol yn y flwyddyn ysgol pan fydd newidiadau yn digwydd i gofrestriad disgyblion.
    - Bydd gweithdrefnau monitro yn helpu lleihau adrodd anghywir
    - Nodi rolau a phersonél i ymgymryd â'r rôl fonitro yn glir

- Anfanteision:
    - Symudiad cofrestriad disgyblion crynswth ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn ysgol
    - Efallai na fydd yr Awdurdod Lleol yn gallu defnyddio cyllid sy'n cael ei ddychwelyd ar gyfer disgybl i gefnogi darpariaeth EOTAS
    - Diogelu yn parhau i fod yn bryder – pwy sy'n gyfrifol?
    - Gallai anfonebu fod yn gymhleth
    - Cynnydd posibl mewn costau staff i'r ALl (e.e. ailysgrifennu disgrifiad swydd, hyfforddiant, cyfweld, ac ati.)

7.3. Opsiwn Tri - Dull Cymru gyfan yn defnyddio cofrestriad sengl ac ychwanegiadau eraill:

- Dangosyddion cofrestriad lleol atodol ar gyfer myfyrwyr EOTAS
- Addasiadau i drefniadau ariannol, ar lefel leol
- Data EOTAS i'w gasglu a'i reoli gan un gweithiwr MIS arweiniol.

Byddai hyn yn golygu fod pob disgybl ar draws Cymru wedi cofrestru ar gofrestr ysgol. Oni bai eu bod wedi eu heithrio'n barhaol, byddai gan y disgyblion hyn gofrestriad sengl gydag EOTAS. Byddai gan ddisgyblion sy'n cyrchu darpariaeth EOTAS ‘ddynodwr

atodol' i ddangos pa fath o ddarpariaeth EOTAS maent yn ei dderbyn; gellid cyflawni hyn ar lefel leol.

Dim ond os ydynt wedi eu heithrio'n barhaol neu wedi symud i'r ALl yn ddiweddar heb nodi ysgol iddynt fyddai gan ddisgyblion gofrestriad sengl.

- Yn achos disgyblion yn symud i'r ALl, heb fod wedi nodi ysgol, dylid defnyddio cofrestriad o'r fath fel mesur '*pan fetho popeth arall*' yn unig; fe ystyrir **cyfnod uchafswm o 6 wythnos** o'r statws cofrestru hwn i fod yn briodol. OS nad yw ysgol wedi ei nodi wedi'r **cyfnod uchafswm o 6 wythnos**, bydd y disgybl yn cael ei gofrestru gyda'r ysgol leol yn defnyddio cyfeiriad preswyl y disgybl.

Yna byddai'r ysgol yn cymryd cyfrifoldeb dros adrodd ar lefel genedlaethol. Byddai PRUs ac EOTAS yn adrodd presenoldeb, deilliannau a dangosyddion data eraill i ysgolion prif ffrwd.

Byddai cyllid disgyblion yn cael ei ail neilltuo i Awdurdodau Lleol i fynd tuag at ddarpariaeth EOTAS.
Ar bwyntiau rheolaidd yn ystod y flwyddyn ariannol, byddai'r Awdurdod Lleol yn darparu anfonebau ôl-weithredol i ysgolion ar gyfer disgyblion sydd wedi cyrchu unrhyw ddarpariaeth EOTAS. Os yw'r disgybl yn parhau i dderbyn darpariaeth EOTAS yn y blynyddoedd i ddod, bydd cyllid disgyblion yn cael ei neilltuo'n uniongyrchol i'r Awdurdod Lleol.

Data EOTAS i'w gasglu a'i reoli gan un gweithiwr MIS arweiniol.

- <u>Manteision:</u>
    - Byddai data adrodd yn lân / llai o bosibiliad o gamddefnyddio
    - Datblygu maes chwarae gwastad
    - Bydd ysgolion yn datblygu mwy o ddiddordeb personol yn y prosesau atgyfeirio
    - Cynyddu perchnogaeth ysgolion o ddeilliannau gwael mewn darpariaeth EOTAS, gydag effaith ar ddangosyddion perfformiad yr ysgol

- Cynlluniau cyllido tymor hirach ar gyfer darpariaeth EOTAS, yn arwain at gynyddu darpariaeth a chyfleoedd ar gyfer disgyblion EOTAS
- Bydd gan ysgolion fwy o ddiddordeb mewn datblygu gwell partneriaethau wrth weithio gyda darparwyr EOTAS
- Bydd gan ysgolion fwy o ddiddordeb mewn cefnogi darpariaeth EOTAS, a thrwy hynny hybu safonau, a fydd yn cynyddu deilliannau myfyrwyr
- Un pwynt cyswllt ar gyfer yr holl ddata PRU a EOTAS
- Ymagwedd genedlaethol
- Yn cael gwared ar yr ysgogiad i drosglwyddo disgyblion EOTAS i wella canlyniadau arholiadau
- Gallai dangosyddion cofrestru atodol darpariaeth EOTAS helpu datblygu barnau lleol a chenedlaethol o'r mathau o ddarpariaeth sy'n gweithio orau gydag anghenion gwahanol fyfyrwyr

- Anfanteision
  - Goblygiadau ariannol ar gyfer ysgolion prif ffrwd
  - Sefydlu trefniadau gyda'r holl arweinwyr ysgol prif ffrwd
  - Bydd pob ysgol prif ffrwd ac ALI yn ‘*cymryd ergyd’* o ran, er enghraifft, deilliannau a phresenoldeb disgyblion
  - Cynnydd posibl mewn eithriadau parhaol ar lefel genedlaethol
  - Nodi swyddogion MIS i reoli cronfa ddata EOTAS
  - Hyfforddi swyddogion MIS

7.4. Opsiwn Pedwar - Cofrestru deuol ac atodiadau eraill:

- Addasiadau i drefniadau ariannol, ar lefel leol
- Data EOTAS i'w gasglu a'i reoli gan un gweithiwr MIS arweiniol gyda'r awdurdod i fonitro'r holl ddata disgyblion EOTAS.
- Cyllid disgybl bellach ddim yn aros gyda'r ysgol, os yw disgybl wedi ei gofrestru fel ‘prif sefydliad’ gyda PRU, ond yn hytrach dychwelyd i'r Awdurdod Lleol (addasiadau i gytundebau cyllido, ar lefel leol)

Byddai hyn yn golygu y byddai gan bob disgybl ar draws Cymru ‘brif’ gofrestriad gydag ysgol neu EOTAS. Byddai'r prif gofrestriad yn cael yn cael ei gadw yn y ddarpariaeth ble mae presenoldeb arfaethedig y disgybl yn dri diwrnod neu fwy, tra byddai'r cofrestriad ‘atodol’ yn y lleoliad ble mae presenoldeb arfaethedig y disgybl yn 2 ddiwrnod neu lai. Bydd yr holl ddata cofrestriad disgyblion EOTAS yn cael ei fonitro gan weithiwr MIS arweiniol.

Byddai gan ddisgyblion sy'n cyrchu darpariaeth EOTAS ‘ddynodwr atodol’ i ddangos pa fath o ddarpariaeth EOTAS maent yn ei dderbyn; gellid cyflawni hyn ar lefel leol.

Dim ond os ydynt wedi eu heithrio'n barhaol neu wedi symud i'r ALl yn ddiweddar heb nodi ysgol iddynt fyddai gan ddisgyblion gofrestriad sengl.

- Yn achos disgyblion yn symud i'r ALl, heb fod wedi nodi ysgol, dylid defnyddio cofrestriad o'r fath fel mesur ‘*pan fetho popeth arall*’ yn unig; byddai **cyfnod uchafswm o 6 wythnos** o'r statws cofrestru hwn yn cael ei ystyried i fod yn briodol. Os nad yw ysgol wedi ei nodi wedi'r **cyfnod uchafswm o 6 wythnos**, bydd y disgybl yn cael ei gofrestru gyda'r ysgol leol yn defnyddio cyfeiriad preswyl y disgybl.

Mae'r ddarpariaeth gyda chyfrifoldeb i adrodd ar lefel genedlaethol yn ddarpariaeth ble mae'r disgybl wedi dal y ‘prif’ gofrestriad ar gyfer y cyfnod hiraf o amser ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol, h.y. 51% ac uwch. Bydd ffigurau yn seiliedig ar y dyddiau y dylai'r disgybl fynychu sefydliad addysgol, h.y. 190 niwrnod (neu 380 sesiwn) ym mhob blwyddyn academaidd.

Bydd y ddarpariaeth sydd â chofrestriad atodol yn darparu'r holl ddata perthnasol i ddibenion cofnodi ac adrodd i ddarparwyr y prif gofrestriad. Bydd data EOTAS yn cael ei reoli gan swyddog(ion) MIS a fydd yn monitro'r ‘rheol tri niwrnod’. Bydd gan y swyddog hwn drosolwg o bob statws cofrestru disgyblion EOTAS ac yn cael gwybod am unrhyw newid i gofrestriad disgyblion EOTAS.

Bydd cyllid disgybl yn cael ei neilltuo i ysgol brif ffrwd neu ALl, yn ddibynnol ar bresenoldeb arfaethedig y disgybl. Bydd yr ysgol ble mae gan y disgybl statws cofrestru (prif neu atodol) yn dal y cyllid; gall yr ALl ddarparu anfoneb i'r ysgol(ion) perthnasol ym mhob tymor, yn ôl-weithredol.

Bydd rôl y swyddog MIS sy'n rheoli'r holl ddata cofrestru EOTAS yn allweddol yn y broses hon.

- Manteision:
    - Byddai data adrodd yn lân / llai o bosibiliad o gamddefnyddio
    - ‘Monitro’ nodedig o'r rôl data
    - Bydd ysgolion yn datblygu mwy o ddiddordeb personol yn y prosesau atgyfeirio
    - Cynlluniau cyllido tymor hirach ar gyfer darpariaeth EOTAS, yn arwain at gynyddu darpariaeth a chyfleoedd ar gyfer disgyblion EOTAS
    - Bydd gan ysgolion fwy o ddiddordeb mewn datblygu gwell partneriaethau wrth weithio gyda darparwyr EOTAS
    - Bydd gan ysgolion fwy o ddiddordeb mewn cefnogi darpariaeth EOTAS, a thrwy hynny hybu safonau, a fydd yn cynyddu deilliannau myfyrwyr
    - Un pwynt cyswllt ar gyfer yr holl ddata PRU a EOTAS
    - Ymagwedd genedlaethol
    - Yn cael gwared ar yr ysgogiad i drosglwyddo disgyblion EOTAS i wella canlyniadau arholiadau
    - Gallai dangosyddion cofrestru atodol darpariaeth EOTAS helpu datblygu barnau lleol a chenedlaethol o'r mathau o ddarpariaeth sy'n gweithio orau gydag anghenion gwahanol fyfyrwyr

- Anfanteision
    - Goblygiadau ariannol ar gyfer ysgolion prif ffrwd
    - Cynnydd posibl mewn eithriadau parhaol ar lefel genedlaethol
    - Nodi swyddogion MIS i reoli cronfa ddata EOTAS
    - Hyfforddi swyddogion MIS

**Atodiad I**

## TABL 1: NIFER O DDISGYBLION A ADDYSGWYD EOTAS FESUL AWDURDOD LLEOL 2015/16

| Awdurdod Lleol | Disgyblion EOTAS y mae eu prif addysg tu allan i'r ysgol ac nad | | | Disgyblion EOTAS | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | nad ydynt ar gofrestr mewn ysgol a gynhelir | sydd â statws cofrestriad mewn ysgol a gynhelir | Cyfanswm | sydd â phrif statws cofrestriad neu statws cyfredol mewn ysgol a gynhelir | Pob disgybl sy'n derbyn darpariaeth EOTAS | Canran o ddisgyblion EOTAS nad oes ganddynt gofrestriad cyfredol mewn ysgol a gynhelir |
| Ynys Môn | 20 | 0 | 20 | 5 | 25 | 20% |
| Gwynedd | 69 | 0 | 69 | 12 | 81 | 15% |
| Conwy | 55 | 0 | 55 | 0 | 55 | 0% |
| Sir Ddinbych | 62 | 0 | 62 | 42 | 104 | 40% |
| Y Fflint | 105 | 14 | 119 | 17 | 136 | 13% |
| Wrecsam | 13 | 28 | 41 | <5 | <5 | |
| Powys | 50 | 9 | 59 | 12 | 71 | 17% |
| Ceredigion | 11 | 20 | 31 | 10 | 41 | 24% |
| Sir Benfro | 11 | 7 | 18 | 61 | 79 | 77% |
| Sir Gaerfyrddin | 13 | 59 | 72 | 45 | 117 | 38% |
| Abertawe | 35 | 133 | 168 | 6 | 174 | 3% |
| Castell-nedd Port Talbot | <5 | <5 | 76 | 56 | 132 | 42% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7 | 38 | 45 | 36 | 81 | 44% |
| Bro Morgannwg | 40 | 68 | 108 | <5 | <5 | |
| Rhondda Cynon Taf | 82 | 78 | 160 | 33 | 193 | 17% |
| Merthyr Tudful | 9 | 31 | 40 | 0 | 40 | 0% |
| Caerffili | 7 | 63 | 70 | 120 | 190 | 63% |
| Blaenau Gwent | 5 | 38 | 43 | <5 | <5 | |
| Torfaen | 24 | 0 | 24 | 32 | 56 | 57% |
| Sir Fynwy | 5 | 7 | 12 | 14 | 26 | 54% |
| Casnewydd | <5 | <5 | 87 | 22 | 109 | 20% |
| Caerdydd | 128 | 5 | 133 | 72 | 205 | 35% |
| **Ar gyfer Cymru gyfan, gellir dangos y data canlynol** | | | | | | |
| 2015/16 | 909 | 603 | 1,512 | 602 | 2,114 | 28% |
| 2014/15 | 909 | 478 | 1,387 | 770 | 2,157 | 36% |
| **Gwahaniaeth rhwng 14/15 a 15/16** | **0** | **+125** | **+125** | **-168** | **-43** | **-8%** |

**YSTYRIAETHAU**

- Ar y cyfan yn 2015-2016 dim ond 28% o'r holl ddisgyblion EOTAS yng Nghymru oedd â chofrestriad cyfredol mewn ysgol a gynhelir. Nid yw'n glir, o'r data hwn, beth yw'r didoliad o flwyddyn ysgol ar gyfer statws disgyblion.

- Cofnododd dros 30% o ALlau 40%, neu fwy, o ddisgyblion EOTAS wedi cofrestru mewn ysgol a gynhelir.
- Mae'r amrediad o niferoedd disgyblion yn derbyn darpariaeth EOTAS yn amrywio'n sylweddol rhwng ALlau, gyda niferoedd yn amrywio o 25 i dros 200, gan anwybyddu dychweliadau sy'n <5.
- Yn 2015-2016 darparodd bron i 50% o ALlau Cymru ddarpariaeth EOTAS i dros 100 o ddisgyblion, ond nid yw hyn yn ystyried maint yr ALl.
- Yn ystod yr un cyfnod, darparodd 18% EOTAS i dros 150 o ddisgyblion.
- Mae rhywfaint o ddata ALl yn anghyflawn, a allai effeithio ar ddilysrwydd ystadegau cenedlaethol.

## TABL 2: NIFER O DDISGYBLION Y MAE EU PRIF ADDYSG YN EOTAS FESUL AWDURDOD LLEOL 2015/2016

| | Nifer | | Cyfradd (a) | |
|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol** | **2014/15** | **2015/16** | **2014/15** | **2015/16** |
| Ynys Môn | 23 | 20 | 2.4 | 2.1 |
| Gwynedd | 29 | 69 | 1.7 | 4.0 |
| Conwy | 70 | 55 | 4.4 | 3.4 |
| Sir Ddinbych | 45 | 62 | 2.8 | 3.9 |
| Y Fflint | 145 | 119 | 6.1 | 5.0 |
| Wrecsam | 47 | 41 | 2.4 | 2.1 |
| Powys | 58 | 59 | 3.2 | 3.3 |
| Ceredigion | 15 | 31 | 1.6 | 3.2 |
| Sir Benfro | 10 | 18 | 0.6 | 1.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 50 | 72 | 1.8 | 2.6 |
| Abertawe | 178 | 168 | 5.0 | 4.7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 80 | 76 | 3.9 | 3.6 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 39 | 45 | 1.7 | 2.0 |
| Bro Morgannwg | 80 | 108 | 3.6 | 4.8 |
| Rhondda Cynon Taf | 102 | 160 | 2.6 | 4.1 |
| Merthyr Tudful | * | 40 | * | 4.6 |
| Caerdydd | 139 | 133 | 2.6 | 2.5 |
| Caerffili | 142 | 70 | 4.9 | 2.4 |
| Blaenau Gwent | 33 | 43 | 3.5 | 4.6 |
| Torfaen | 26 | 24 | 1.7 | 1.6 |
| Sir Fynwy | * | 12 | * | 1.0 |
| Casnewydd | 68 | 87 | 2.7 | 3.4 |
| Cymru | 1,387 | 1,512 | 3.0 | 3.2 |

**YSTYRIAETHAU**

- Yn 2015-2016 gwelodd dros 55% o ALlau Cymru gynnydd yn y niferoedd o ddisgyblion yn cyrchu darpariaeth EOTAS.
- Gwelodd Gwynedd a Rhondda Cynon Taf gynnydd arwyddocaol mewn disgyblion yn cyrchu darpariaeth EOTAS, ond nid yw'r data yma'n darparu unrhyw esboniad dros y cynnydd.
- Mewn cyferbyniad, gwelodd Caerffili a Sir y Fflint leihad, ond nid yw'r data yma'n darparu unrhyw esboniad dros y lleihad hwn.
- Yn 2015-2016, ledled Cymru roedd 3.2 o bob 1,000 disgybl yn derbyn ei brif addysg mewn darpariaeth EOTAS. Roedd gan dros chwarter ALlau Cymru fwy na 4 o bob 1,000 o ddisgyblion yn cyrchu darpariaeth EOTAS.
- Mae rhywfaint o ddata ALl yn anghyflawn, a allai effeithio ar ddilysrwydd ystadegau cenedlaethol.

## TABL 3: Nifer o ddisgyblion y mae eu prif addysg yn EOTAS, yn ôl oed a rhyw

| | Nifer | | | Cyfradd | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2015/16 | Gwahaniaeth +/ - | 2014/15 | 2015/16 |
| Rhyw | | | | | |
| Bechgyn | 990 | 1,060 | +70 | 4.2 | 4.4 |
| Merched | 397 | 452 | +55 | 1.7 | 2.0 |
| Disgyblion | 1,387 | 1,512 | +125 | 3.0 | 3.2 |
| Cyfanswm | | | | | |
| 19 neu hŷn | * | 0 | | * | 0.0 |
| **18** | 25 | 18 | -7 | 17.6 | 12.2 |
| **17** | 47 | 49 | +2 | 3.7 | 4.1 |
| **16** | 75 | 80 | +5 | 4.9 | 5.5 |
| **15** | 609 | 718 | +109 | 18.2 | 22.2 |
| **14** | 262 | 243 | -19 | 8.1 | 7.6 |
| **13** | 132 | 150 | +18 | 4.1 | 4.9 |
| **12** | 83 | 90 | +7 | 2.7 | 2.8 |
| **11** | 48 | 42 | -6 | 1.5 | 1.3 |
| **10** | 19 | 35 | +16 | 0.6 | 1.1 |
| **9** | 29 | 21 | -8 | 0.9 | 0.6 |
| **8** | 17 | 15 | -2 | 0.5 | 0.4 |
| **7** | 10 | 19 | +9 | 0.3 | 0.5 |
| **6** | 10 | 7 | -3 | 0.3 | 0.2 |
| **5** | * | 7 | | * | 0.2 |
| Dan 5 | 14 | 18 | +4 | 0.2 | 0.2 |
| Cyfanswm | 1,387 | 1,512 | +125 | 3.0 | 3.2 |

**REFLECTIONS**

- Yn ystod y ddau gyfnod academaidd, mae disgyblion gwrywaidd wedi eu cynrychioli'n ormodol yng nghymuned EOTAS Cymru.
- Yn ystod y ddau gyfnod academaidd, mae'r ystod oedran ble mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion fwyaf tebygol o gyrchu darpariaeth EOTAS tuag at ddiwedd Cyfnod Allweddol (CA) 3 ac yn ystod CA4. Fodd bynnag, nid yw'r data yn dweud wrthym faint o amser a dreuliodd y disgyblion mewn darpariaeth EOTAS nac ar ba gyfnod o'r flwyddyn ysgol y trosglwyddwyd disgyblion i EOTAS.
- Yn 2015-16 ceir cynnydd arwyddocaol mewn disgyblion yn cael eu cyfeirio at ddarpariaeth EOTAS yn y flwyddyn ar ddiwedd CA1 a CA2.

- A yw'r data ar gyfer Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yn cyfeirio at ddisgyblion gyda Datganiad o AAA?

## TABL 4: DISGYBLION Y MAE EU PRIF ADDYSG YN EOTAS, FESUL ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (AAA)

| | Nifer y disgyblion | | Canran o ddisgyblion (a) | |
|---|---|---|---|---|
| **Darpariaeth AAA** | **2014/15** | **2015/16** | **2014/15** | **2015/16** |
| Datganiad o AAA | 463 | 472 | 33.4 | 31.2 |
| Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 645 | 705 | 46.5 | 46.6 |
| Gweithredu gan yr Ysgol | 87 | 123 | 6.3 | 8.1 |
| Dim AAA | 192 | 212 | 13.8 | 14.0 |
| Cyfanswm | 1,387 | 1,512 | 100.0 | 100.0 |

*(a) Canran o ddisgyblion y mae eu prif addysg heblaw yn yr ysgol.*

**YSTYRIAETHAU** - *cwestiynau cynnydd data:*

- A oes cysondeb yn y modd mae disgyblion yn cael eu cofrestru ar gyfer AAA ar draws Cymru?
- Mae yna nifer arwyddocaol o ddisgyblion gyda Datganiad AAA mewn darpariaeth EOTAS, a oes diffyg darpariaeth arbenigol mewn ALlau?
- Pa ddiagnosis AAA mae'r disgyblion sy'n mynychu EOTAS yn ei dderbyn?
- A ddylai disgyblion sy'n cyrchu darpariaeth EOTAS, sydd tu allan i'r ysgol brif ffrwd, gael eu nodi fel Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy?
- Pa fath o ddarpariaeth EOTAS mae'r disgyblion hynny heb AAA yn ei dderbyn?
- Yn 2015-2016 mae yna gynnydd o bron i 10% mewn disgyblion AAA yn cyrchu darpariaeth EOTAS o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Pam fod y cynnydd wedi digwydd?

## TABL 5: DISGYBLION Y MAE EU PRIF ADDYSG YN EOTAS, FESUL DARPARIAETH ADDYSGOL 2015/16

| Darpariaeth Addysgol | Nifer o Gofrestriadau | % o Gofrestriadau | Cyfartaledd y nifer o oriau y disgwylir i ddisgybl fynychu mewn wythnos |
|---|---|---|---|
| **Uned cyfeirio disgyblion** | 733 | 46.4 | 23.0 |
| **Coleg addysg bellach** | 90 | 5.7 | 21.4 |
| **Ysgol a gynhelir** | 36 | 2.3 | 12.6 |
| **Ysgol arbennig na chynhelir** | 76 | 4.8 | 26.1 |
| **Tiwtora Unigol** | 243 | 15.4 | 12.1 |
| **Porth Ieuenctid** | 0 | 0.0 | . |
| **Addysg yn gysylltiedig â gwaith** | 8 | 0.5 | 11.9 |
| **Darparwr hyfforddiant** | 93 | 5.9 | 22.8 |
| **Sefydliad gwirfoddol** | 1 | 0.1 | 5.0 |
| **Darpariaeth sector preifat a brynwyd** | 37 | 2.3 | 19.4 |
| **Ysgol annibynnol** | 187 | 11.8 | 25.5 |
| **Darpariaeth na chynhelir gan, neu sydd tu allan i, awdurdod** | 17 | 1.1 | 24.8 |
| **Aros am ddarpariaeth neu ni ddarperir ar hyn o bryd** | 19 | 1.2 | . |
| **Arall** | 40 | 2.5 | 18.5 |
| **Cyfanswm** | 1,580 | 100.0 | 20.9 |

**YSTYRIAETHAU**

- PRUs oedd y ddarpariaeth EOTAS a ddefnyddiwyd fwyaf, bron i 50%.
- Tiwtora Unigol yw'r ail uchaf o'r darpariaethau EOTAS ar 15.4%, nid yw'n glir a yw'r disgyblion hyn yn Addysg Ddewisol yn y Cartref neu'n derbyn Tiwtora Unigol a ddarperir gan yr ALl.
- Mae'r mathau o ddarpariaeth EOTAS yn amrywio o ran oriau cyfartalog a drefnwyd yr wythnos o 5 i 25 awr. Mae gan tua hanner y mathau lai nag 20 awr.

## TABL 6: CYRHAEDDIAD CYNHWYSOL LEFEL 2 DISGYBLION PRU AC EOTAS, FESUL AWDURDOD LLEOL 2015/2016

| Blwyddyn | Enw ALl | PRU | | EOTAS | | PRU ac EOTAS | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Disgyblion ym mlwyddyn 11 | % o L2 a gynhwysir | Disgyblion ym mlwyddyn 11 | % o L2 a gynhwysir | Disgyblion ym mlwyddyn 11 | % o L2 a gynhwysir |
| 2015 | Ynys Môn | 5 | 0 | 3 | 0 | 8 | 0 |
| | Gwynedd | 4 | 0 | 6 | 0 | 10 | 0 |
| | Conwy | 43 | 5 | 8 | 13 | 51 | 6 |
| | Sir Ddinbych | 15 | 0 | 25 | 0 | 40 | 0 |
| | Y Fflint | 60 | 2 | 2 | 0 | 62 | 2 |
| | Wrecsam | 19 | 0 | 0 | . | 19 | 0 |
| | Powys | 14 | 14 | 5 | 0 | 19 | 11 |
| | Ceredigion | 8 | 0 | 2 | 0 | 10 | 0 |
| | Sir Benfro | 0 | . | 5 | 20 | 5 | 20 |
| | Sir Gaerfyrddin | 4 | 0 | 18 | 0 | 22 | 0 |
| | Abertawe | 14 | 7 | 54 | 0 | 68 | 1 |
| | CNPT | 0 | . | 19 | 0 | 19 | 0 |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | 6 | 0 | 11 | 0 | 17 | 0 |
| | Bro Morgannwg | 19 | 0 | 7 | 14 | 26 | 4 |
| | RhCT | 11 | 0 | 13 | 0 | 24 | 0 |
| | Merthyr Tudful | 0 | . | 2 | 0 | 2 | 0 |
| | Caerffili | 0 | . | 92 | 2 | 92 | 2 |
| | Blaenau Gwent | 7 | 0 | 9 | 22 | 16 | 13 |
| | Torfaen | 3 | 0 | 3 | 0 | 6 | 0 |
| | Sir Fynwy | 3 | 0 | 1 | 0 | 4 | 0 |
| | Casnewydd | 8 | 0 | 19 | 0 | 27 | 0 |
| | Caerdydd | 14 | 0 | 50 | 2 | 64 | 2 |
| | Cymru | 257 | 2 | 354 | 2 | 611 | 2 |
| | | | | | | | |
| 2016 | Ynys Môn | 3 | 0 | 8 | 0 | 11 | 0 |
| | Gwynedd | 0 | . | 57 | 0 | 57 | 0 |
| | Conwy | 35 | 0 | 2 | 0 | 37 | 0 |
| | Sir Ddinbych | 14 | 7 | 44 | 2 | 58 | 3 |
| | Y Fflint | 32 | 0 | 11 | 0 | 43 | 0 |
| | Wrecsam | 25 | 0 | 2 | 0 | 27 | 0 |
| | Powys | 15 | 0 | 6 | 0 | 21 | 0 |
| | Ceredigion | 11 | 9 | 4 | 0 | 15 | 7 |
| | Sir Benfro | 8 | 0 | 1 | 0 | 9 | 0 |
| | Sir Gaerfyrddin | 25 | 0 | 15 | 0 | 40 | 0 |
| | Abertawe | 25 | 24 | 42 | 0 | 67 | 9 |
| | CNPT | 0 | . | 17 | 0 | 17 | 0 |
| | Pen-y-bont ar | 24 | 0 | 0 | . | 24 | 0 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ogwr | | | | | | |
| | Bro Morgannwg | 23 | 0 | 13 | 8 | 36 | 3 |
| | RhCT | 29 | 0 | 25 | 0 | 54 | 0 |
| | Merthyr Tudful | 0 | . | 35 | 0 | 35 | 0 |
| | Caerffili | 52 | 0 | 3 | 0 | 55 | 0 |
| | Blaenau Gwent | 12 | 0 | 0 | . | 12 | 0 |
| | Torfaen | 4 | 0 | 0 | . | 4 | 0 |
| | Sir Fynwy | 3 | 0 | 6 | 0 | 9 | 0 |
| | Casnewydd | 7 | 0 | 32 | 0 | 39 | 0 |
| | Caerdydd | 21 | 0 | 24 | 0 | 45 | 0 |
| | Cymru | 368 | 2 | 347 | 1 | 715 | 1 |

**YSTYRIAETHAU** *(Tabl 6)*

- Yn ystod y ddau gyfnod academaidd, **ni wnaeth** 98% o'r disgyblion oedd yn cyrchu darpariaeth EOTAS gyflawni trothwy L2 cynhwysol.
- Nid yw'r data yn ein hysbysu am ba hyd mae disgybl wedi bod yn cyrchu darpariaeth EOTAS, y data atodol yma a allai ddarparu gwybodaeth ddigonol i farnu a yw darpariaeth EOTAS yn achosi i ddisgyblion fethu a chyflawni trothwy L2 cynhwysol.
- Yn 2015/2016 roedd disgyblion yn cyrchu darpariaeth EOTAS mewn PRU ddwywaith yn fwy tebygol o gyflawni trothwy L2 cynhwysol.
- Nid yw'r data yn ein hysbysu a yw disgyblion mewn darpariaeth EOTAS, ar wahân i PRU, yn cyflawni trothwy L2 cynhwysol.

**TABL 7: DANGOSYDDION ALLWEDDOL CA4 GAN ALL A CHONSORTIA AR GYFER DISGYBLION EOTAS 2015/16**

| RHANBARTH | Nifer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 | % yn cyflawni'r Lefel 1 Trothwy (D-G) | % yn cyflawni'r Lefel 2 Trothwy (A*-C) | % Gwahaniaeth + / - |
|---|---|---|---|---|
| **Gogledd Cymru** | **124** | **41.1** | **6.5** | **-35** |
| Ynys Môn | 8 | 0.0 | 0.0 | 0 |
| Gwynedd | 57 | 61.4 | 10.5 | -51 |
| Conwy | 2 | 50.0 | 0.0 | -50 |
| Sir Ddinbych | 44 | 29.5 | 4.5 | -25 |
| Y Fflint | 11 | 9.1 | 0.0 | -9 |
| Wrecsam | * | * | * | |
| **De-orllewin a Chanolbarth Cymru** | **85** | **30.6** | **4.7** | **-26** |
| Powys | 6 | 0.0 | 0.0 | 0 |
| Ceredigion | * | * | * | |
| Sir Benfro | * | * | * | |
| Sir Gaerfyrddin | 15 | 53.3 | 26.7 | -27 |
| Abertawe | 42 | 38.1 | 0.0 | -38 |
| Castell-nedd Port Talbot | 17 | 5.9 | 0.0 | -6 |
| **Canol De Cymru** | **97** | **51.5** | **11.3** | **-40** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | . | . | |
| Bro Morgannwg | 13 | 30.8 | 7.7 | -23 |
| Rhondda Cynon Taf | 25 | 72.0 | 36.0 | -36 |
| Merthyr Tudful | 35 | 71.4 | 2.9 | -69 |
| Caerdydd | 24 | 12.5 | 0.0 | -13 |
| **De Ddwyrain** | **41** | **4.9** | **0.0** | **-5** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Caerffili | * | * | * | |
| Blaenau Gwent | 0 | . | . | |
| Torfaen | 0 | . | . | |
| Sir Fynwy | 6 | 16.7 | 0.0 | -17 |
| Casnewydd | 32 | 3.1 | 0.0 | -3 |

## YSTYRIAETHAU

- Canol De Cymru sydd â'r bwlch mwyaf rhwng trothwy L1 a throthwy L2 ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 (yr 2[il] fwyaf o ran nifer o ddisgyblion EOTAS ym mlwyddyn 11) – Nid mewn PRUs
- Nid yw'r data yn darparu digon o wybodaeth i asesu faint o'r 98% o ddisgyblion EOTAS oedd ychydig yn brin o'r trothwy L2 cynhwysol.

## TABL 8: DANGOSYDDION ALLWEDDOL CA4 GAN ALL A CHONSORTIA AR GYFER DISGYBLION PRU 2015/16

| Rhanbarth | **Nifer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11** | **% yn cyflawni'r Lefel 1 Trothwy (D-G)** | **% yn cyflawni'r Lefel 2 Trothwy (A*-C)** | **% Gwahaniaeth + / -** |
|---|---|---|---|---|
| **Gogledd Cymru** | **109** | **13.8** | **2.8** | **-11.0** |
| Ynys Môn | * | * | * | |
| Gwynedd | 0 | . | . | |
| Conwy | 35 | 5.7 | 0.0 | -5.7 |
| Sir Ddinbych | 14 | 7.1 | 7.1 | 0.0 |
| Y Fflint | 32 | 6.3 | 3.1 | -3.1 |
| Wrecsam | 25 | 40.0 | 4.0 | -36.0 |
| **De-orllewin a Chanolbarth Cymru** | **84** | **48.8** | **10.7** | **-38.1** |
| Powys | 15 | 33.3 | 0.0 | -33.3 |
| Ceredigion | 11 | 18.2 | 9.1 | -9.1 |
| Sir Benfro | 8 | 25.0 | 0.0 | -25.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 25 | 56.0 | 0.0 | -56.0 |
| Abertawe | 25 | 72.0 | 32.0 | -40.0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | . | . | |
| **Canol De Cymru** | **97** | **36.1** | **17.5** | **-18.6** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 24 | 33.3 | 25.0 | -8.3 |
| Bro Morgannwg | 23 | 13.0 | 0.0 | -13.0 |
| Rhondda Cynon Taf | 29 | 69.0 | 37.9 | -31.0 |
| Merthyr Tudful | 0 | . | . | |
| Caerdydd | 21 | 19.0 | 0.0 | -19.0 |
| **De Ddwyrain** | **78** | **33.3** | **1.3** | **-32.1** |
| Caerffili | 52 | 40.4 | 1.9 | -38.5 |
| Blaenau Gwent | 12 | 25.0 | 0.0 | -25.0 |
| Torfaen | * | * | * | |
| Sir Fynwy | * | * | * | |
| Casnewydd | 7 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |

## YSTYRIAETHAU

- De-orllewin a Chanolbarth Cymru oedd â'r bwlch mwyaf rhwng trothwy L1 a throthwy L2

- Roedd gan Ogledd Cymru'r fintai fwyaf o ddisgyblion blwyddyn 11, ond y bwlch isaf rhwng trothwy L1 a throthwy L2. Sut cafodd y bwlch hwn ei gau?
- Nid oes digon o wybodaeth i ddadansoddi pa mor agos oedd disgyblion yn cyflawni trothwy L1 at gyflawni trothwy L2.

## TABL 9: MYFYRWYR YN CYRCHU EOTAS 2015-2016 WEDI DIDOLI FESUL MAINT Y BOBLOGAETH

| Awdurdod Lleol | Cyfanswm poblogaethau Canol y flwyddyn 2015 | Disgyblion yn cyrchu EOTAS yn 2015-2016 | % y disgyblion mewn EOTAS yn yr ALl yn 2015-2016 |
|---|---|---|---|
| Merthyr Tudful | 8129 | 190 | 2.337% |
| Ceredigion | 8358 | 41 | 0.491% |
| Ynys Môn | 8826 | 25 | 0.283% |
| Blaenau Gwent | 9074 | 56 | 0.617% |
| Sir Fynwy | 12277 | 109 | 0.888% |
| Torfaen | 12587 | 26 | 0.207% |
| Sir Ddinbych | 12856 | 104 | 0.809% |
| Conwy | 14451 | 55 | 0.381% |
| Gwynedd | 15757 | 81 | 0.514% |
| Sir Benfro | 16449 | 79 | 0.480% |
| Powys | 16991 | 71 | 0.418% |
| Bro Morgannwg | 18112 | <5 | |
| Castell-nedd Port Talbot | 18544 | 132 | 0.712% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 19073 | 81 | 0.425% |
| Wrecsam | 19345 | <5 | |
| Y Fflint | 21626 | 136 | 0.629% |
| Casnewydd | 21788 | 205 | 0.941% |
| Sir Gaerfyrddin | 24912 | 117 | 0.470% |
| Caerffili | 25721 | <5 | |
| Abertawe | 31063 | 174 | 0.560% |
| Rhondda Cynon Taf | 32642 | 40 | 0.123% |
| Caerdydd | 46687 | 193 | 0.413% |
| **Cymru** | **415268** | | |

## YSTYRIAETHAU

- Mae gan Ferthyr Tudful y boblogaeth isaf ond y ganran fwyaf o ddisgyblion yn cyrchu darpariaeth EOTAS. Beth sy'n arwyddocaol yn yr ALl hwn sy'n achosi i nifer fwy o ddisgyblion gyrchu darpariaeth EOTAS?
- Roedd gan 8 ALl fwy na 0.5% o'u disgyblion yn cyrchu darpariaeth EOTAS. Beth sy'n arwyddocaol yn yr ALlau hyn fel bod canran fwy o ddisgyblion yn cyrchu darpariaeth EOTAS?

# PROSES GOFRESTRU EOTAS *(casglu data 2il gyfnod)*

| | |
|---|---|
| A ydych chi wedi mabwysiadu arferion cofrestru disgyblon EOTAS safonedig? | *Codau presenoldeb ac ati – prif neu atodol / Systemau i gofnodi presenoldeb ac ati.*<br>Os do, pa arferion ydych chi'n eu defnyddio – os nad, beth yw'r rhesymau dros beidio? |
| A oes unrhyw brosesau cofrestru disgyblion sy'n gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr EOTAS? | *Ehangwch ar oes neu nag oes.* |

| Manteision system gofrestru ddeuol | Anfanteision system gofrestru ddeuol |
|---|---|
| | |

| Manteision system gofrestru sengl | Anfanteision system gofrestru sengl |
|---|---|
| | |

| Pa arferion cofrestru disgyblion, os o gwbl, ydych chi'n meddwl allai fod o fudd i ddisgyblion ac a fyddai'n arddangos cynnydd disgyblion orau? |
|---|
| |

| Sylwadau ychwanegol / gwybodaeth – *unrhyw beth a fyddai'n gwella arferion cofrestru disgyblion – darparu 'data glân'* |
|---|
| |

Dychwelwch at: admin@siaradda.org.uk